

# y dinesydd

www.dinesydd.com

Ebrill 2006

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch

Rhif 307

## CYCHWYN APÊL YR EISTEDDFOD



Côr Aelwyd Hamdden a Chor Unedig Ysgolion Gyfun yr ardal yn y cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant ar 26 Mawrth. Hefyd cymerwyd rhan gan Gôrddydd, Côr Merched Canna, Côr Caerdydd, Côr CF1, a Pharti'r Wenallt.

Yr unadwyr oedd Alice Reed, Mali Llewelyn, Marged Jones a Lowri Walton. Roedd y cyngerdd er budd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008.

## YMATEB - HWNNA YDI O

Ymateb - hwnna ydy o. Golygydd y mis diwethaf yn codi nifer o bwyntiau a'r cyfryngau'n ymateb. Wedyn - y Dinesydd yn ymateb i'r cyfryngau.

Golygydd y mis diwethaf yn datgan fod 32,000 o Gymry Cymraeg Caerdydd "yn methu cynnal papur bro Cymraeg bob mis - ac nid yn ariannol yn unig. Mae cael pobl i gyfrannu fel cael gwaed o garreg, ac oni bai am glecs y capeli a'r ysgolion, fe fyddai'n dlawd iawn ar y papur."

Y BBC ym Mangor yn ymateb drwy gynnal rhaglen Taro'r Post brynhawn Llun diwethaf lle bu'r cyflwynydd Rhys Owen yn holi Dr E Wyn James, Cadeirydd Pwyllgor y Dinesydd am ei farn ar y sefyllfa. Wedyn ymatebodd Leah Jones, ysgrifenyddes Côr CF1, merch sydd wedi ei geni a'i magu yn y ddinas. Rhaglen ddiddorol ac fe ddaeth llawer pwynt i'r amlwg fel - y Dinesydd yn llawn newyddion am yr ysgolion a'r capeli a ddim yn apelio at bobl ifanc - dwy garfan o Gymry yng Nghaerdydd, bobl barhaol a phobl dros dro - y bobl barhaol sy'n tueddi i gyfrannu at y Dinesydd - pobl ifanc ddim yn gwybod am y Dinesydd - copïau o'r Dinesydd ddim ar gael yn hawdd i'r bobl ifanc

Y realiti yw - mae nifer fawr o Gymry Caerdydd yn gefnogol iawn i'r papur fel y mae eu haelioni'n cyfrannu bron i £5,000 mewn dau fis yn dangos. Pan mae'r papur mewn trafferthion ariannol mae'r gefnogaeth ariannol yna - am nad oes gohebyddion penodedig i hel straeon

mae'r papur yn dibynnu yn helaeth iawn ar y storïau a ddaw i law. 'Dydy Calendr y Dinesydd ddim yn rhestr ddigon llawn o weithgareddau Cymraeg y ddinas ag o'r tua 20 corff, sefydliad neu gymdeithas sy'n hysbysebu drwyddo ddim ond tua 4 sy'n adrodd yn ôl ar y gweithgaredd.

Beth allwn ni fel cefnogwyr a darllenwyr y Dinesydd ei wneud?

Mae Cymry Caerdydd wedi dangos eu cefnogaeth drwy ymateb mor anhygoel i'r apêl ariannol. Mae'n rhaid i Bwyllgor y Dinesydd nawr ystyried y dyfodol yn ddwys iawn a dangos eu bod yn haeddu'r fath gefnogaeth.

I wneud papur diddorol mae'n rhaid cael erthyglau diddorol fel - pytiau bach o newyddion am y gweithgareddau Cymraeg. Dim ond paragraff sydd ei angen - erthyglau byr am Gaerdydd - ei gorffennol, ei phresennol a'i dyfodol - mae 200 o eiriau'n llawn ddigon - llythyrau byr tua 40 gair sy'n cwyno, lleisio barn, gweld bai neu'n canmol rhywbeth yng Nghaerdydd - rhywbeth fydd yn ennyn ymateb yn y rhifyn canlynol - hanes chwaraeon - oes yna agwedd Cymraeg neu Gymreig ar hynt a helynt Clybiau mawr a bach Chwaraeon y Ddinas - mewn 60 gair? - erthyglau byr ar Gymry Cymraeg nodedig yn hanes Caerdydd - tua 100 gair.

Dewch Gymry Caerdydd - eich papur chi ydi o. Ar ôl rhoi eich llaw mor hael yn eich poced, rhowch eich pin ysgrifennu ar bapur hefyd.

## TŶ'R CYMRY yn 70 OED

Bu dathlu pen-blwydd Tŷ'r Cymry yn 70 oed dros Wyl Dewi. Mae pwysigrwydd Tŷ'r Cymry yn hanes Cymry Cymraeg Caerdydd yn enfawr ac fe ddaeth hyn allan yn glir iawn yn sgysiau'r naw person a amlinellodd hanes y Tŷ hyd at yma. Robot ap Tomos, Llywydd Tŷ'r Cymry, a lywyddodd y noson a chyflwynwyd y siaradwyr gan Iorwerth Morgan, Ysgrifennydd y Tŷ.

Rhodd i Gymry Cymraeg Caerdydd oedd Tŷ'r Cymry gan Lewis Williams o'r Barri ym 1936. Ei fwriad oedd darparu cyfle i Gymry Cymraeg ymgynnull, i fudiadau Cymreig gyfarfod i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac i weithio tuag at "statws dominiwn Cymraeg" i Gymru. Fe wireddwyd ei freuddwyd.

Yn Nhŷ'r Cymry y gwelwyd y cynnig cyntaf i sefydlu ysgol Gymraeg ei chyfrwng yn yr ardaloedd Seisnigedig. Ym 1937-38 'roedd Gwyn M Daniel ac eraill o griw Tŷ'r Cymry ar fin sefydlu'r ysgol yn y Tŷ. Ond ni sefydlwyd hi ar y pryd oherwydd bod y rhyfel yn nesáu ac i Arglwydd Faer Caerdydd fynnu mai cyfrifoldeb pwyllgor addysg y ddinas oedd sefydlu pob ysgol.

### Parhad ar dudalen 3



# Y Dinesydd

www.dinesydd.com

**Golygydd y rhifyn hwn:**  
Peter Gillard

**Golygydd y rhifyn nesaf:**  
Cen Williams

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mai 2006 erbyn 24 Ebrill at:**  
Cen Williams, 27 Llantrisant Rise,  
Llandaf, Caerdydd CF5 2PG (ebost:  
cenwilliams@aol.com; ffôn: 029-2057-  
5439).

neu at

**Gadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd:**  
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr  
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ  
(e-bost: [JamesEW@caerdydd.ac.uk](mailto:JamesEW@caerdydd.ac.uk);  
ffôn: 029-2062-8754).

Cyhoeddir Y Dinesydd gan  
Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan gweHendre  
a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

## CALENDR

Anfonwch eitemau at

Dr E. Wyn James. (Gweler uchod)

## DERBYN A DOSBARTHU

Os ydych am dderbyn Y Dinesydd  
drwy'r post, neu am gynorthwyo gyda'r  
dosbarthu cysylltwch â CERI  
MORGAN, 24 Cwm Gwynlais,  
Tongwynlais, Caerdydd. CF15 7HU.

Ffôn symudol: 07774 816209

e-bost: [ceri33@btopenworld.com](mailto:ceri33@btopenworld.com)

## HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r  
Dinesydd yn cael eu dosbarthu. Mae'n  
gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran  
uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn Y  
Dinesydd cysylltwch â Siân Lewis: 029  
20565658. [sian@dinesydd.com](mailto:sian@dinesydd.com).


## CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Os ydych yn barod i gynorthwyo i  
gynhychu'r Dinesydd - trwy gasglu  
newyddion neu golygu rhifyn, etc. -  
cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor Y  
Dinesydd (Gweler uchod).

## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad Y Dinesydd yn dibynnu ar  
roddion gan unigolion a  
chymdeithasau. Rydym yn croesawu  
pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at:  
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter  
Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr  
Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14  
2FG.

## CROESAIR Rhif 63 gan Rhian Williams



**Atebion i:**  
22, Heol Cae  
Rhys,  
Rhiwbina,  
Caerdydd.  
CF14 6AN  
i gyrraedd  
erbyn  
20 Ebrill  
2006.

### Ar Draws

1. Dilledyn llanc Duw yn Lloegr (7)
5. Talp o lo brig mewn afon dawel (5)
8. Mae'r Tyst o Faldwyn yn dal yr edafedd (5)
9. Cân y fam am y cynulliad (7)
10. Cerdded a chadw oed mewn tir diffaith er dim (7)
11. Mae blinder yn lledu o gwmpas diwedd Tachwedd (5)
12. Os gall cant fod yn fwdlyd (6)
14. Nôd y tad yw dal Geraint bach rywsut yn ei freichiau (6)
18. Cig i'r cŵn da i hela (5)
20. 'Adenydd \_\_\_\_\_ pe cawn Ehedwn a chrwydrwn ymhell (7) (T.W.)
22. A yw ôl llaw dde yn bwysig? (7)
23. Cael hyd i loches mewn anodd fan (5)
24. 'Tu cefn i len ragluniaeth ddoeth Mae'n \_\_\_\_\_ wyneb Tad.' (5) (C.L.E.)
25. Sail y truan rhyfedd. (7)

### I Lawr

1. Llwy gynt yn creu awel (7)
2. Perfformio mae Catrin ar yn ail i'r dim. (5)
3. Poeni am ddistrywio ogof Idi (7)
4. A yw Richard yn hapus neu yn dal dig? (6)
5. Annog Cymru fach i fod yn hanner gwell (5)
6. Mae'n flin, gan iddi lithro o gwmpas diwedd y lôn (7)
7. Gwisg Albanaidd i'r parti (5)
13. Aderyn yn cael lwc dda rywsut er i'r cyw golli'i gwt yn y canol (7)
15. Troi atat lan i'r lle hwn (7)
16. 'Cyfiawnder mae'n disgleirio'n \_\_\_\_\_ Wrth faddau yn nhrefn y cymod rhad (7) (A.G)
17. Lle o addysg ar y we efallai i astudio'r amgylchedd (6)
18. Creadur o'r môr, un mympwyol efallai (5)
19. Barnu'r gwawrio. (5)
21. 'Enaid gwan paham yr ofni? Cariad yw \_\_\_\_\_ Duw; Cofiai'i holl ddaioni (5) (H.E.L)

## Atebion Croesair Rhif 62

**Ar draws:** 1 Cocaeth. 4 Tlawd. 7 Unlliw. 8 Canolig. 9 Troedio. 10 gwern. 11 Gwaelu. 13 Bywiog. 17 Gefell. 19 Newidfa. 21 Arennau. 22 Gwelw. 23 Truan. 24 Clebran. **I Lawr:** 1 Clustog. 2 Callio. 3 Anwadal. 4 Tonig. 5 Arloesi. 6 Digon. 8 Cnoi. 12 Arfaethu. 14 Y gwagle. 15 Gwanwyn. 16 Cnau. 17 Gwallt. 18 Llinyn. 20 Daear.

Derbyniwyd 11 ymgais a 9 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn y tro hwn i Buddug Roberts, 14 Coryton Cres, Yr Eglwys Newydd. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Megan Griffiths, Gaenor Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, H.O.Hughes, Margaret Jones, Dilys Pritchard-Jones a James Wiegold.

## TŶ'R CYMRY yn 70 OED (Parhad o dudalen 1)

Cofiai Nia Royles, un o dair merch Gwyn Daniel, am Dŷ'r Cymry fel ail gartref ei thad. Ac eithrio'r Ysgol Sul, yn Nhŷ'r Cymry y cawsai'r ychydig addysg Gymraeg yn ei phlentyndod. Yno, hefyd, 'roedd Nia ac Ethni yn cynnal Uwch Adran yr Urdd bob nos Wener - adran a ddechreuwyd gan eu tad yn y tridegau cynnar.

'Roedd y Tŷ wedi datblygu'n ganolfan i ddegau o athrawon hyd yn oed cyn diwedd y tridegau ac yno y sefydlwyd UCAC ym 1940. Y llywydd oedd Dr Gwenan Jones Aberystwyth, yr is-lywydd, D J Williams Abergwaun, yr Ysgrifennydd Cyffredinol oedd Gwyn Daniel. Hywel J Thomas oedd y trysorydd a Victor Hampson-Jones oedd yr Ysgrifennydd Adran Gyfraith. Roedd Gruff Hughes, Ysgrifennydd Cyffredinol presennol UCAC, yn cydnabod na fyddai UCAC yn bodoli oni bai am Dŷ'r Cymry. Gan amlinellu ystod gwaith yr undeb erbyn hyn, mynnai ef fod y Tŷ wedi gwneud cymwynas amhrisiadwy â Chymru wrth ddarparu'r cyfle i sefydlu UCAC a'i gynnal am ddeugain mlynedd drwy ei bencadlys yn y Tŷ.

Heb argoel am ysgol Gymraeg penderfynodd criw Tŷ'r Cymry sefydlu Ysgol Gymraeg Fore Sadwrn yn y Tŷ. Ym 1943 oedd hynny ac er iddi ddirwyn i ben ym 1947 bu'n symbyliad i sefydlu ysgolion bach tebyg ac roedd nifer o blant Ysgol Tŷ'r Cymry yn blant cyntaf Ysgol Gynradd Gymraeg Caerdydd ym 1949.

Mynegodd y Dr Elunis Goodfellow a Janie Jones eu profiadau yn Ysgol Tŷ'r Cymry a chael eu cludo yno gan Hywel J Thomas, chwech ohonyn nhw mewn Morris 8. Mam Dr Elunis, Caroline Gibbs, oedd un o'r chwe athrawes a roddodd eu Sadyrnau am ddim gydol blynyddoedd y rhyfel. Mynnai Janie Jones fod Uwch Adran yr Urdd wedi parhau yn y Tŷ am ddegawd wedyn.

Enillodd Côr Cydadrodd Tŷ'r Cymry yn yr Eisteddfod Genedlaethol bum mlynedd o'r bron, gan roi'r gorau iddi pan ddyfarnodd y beirniad 99/100 o farciau iddo ac awgrymu mai teg fyddai rhoi cyfle i eraill yn y dyfodol. Yn bresennol ac yn cofio'r cyfnod yn iawn oedd Wynne Lloyd, arweinydd y Tŷ ddiwedd y pedwardegau a dechrau'r pumdegau.

Cofiai Gwilym E Roberts y pumdegau yn Nhŷ'r Cymry, hefyd, ac fel oedd yr

ystafell fawr yn orlawn hyd y drws bob nos Sul am wyth.

Roedd Gwilym, fel Owen John Thomas, ynglŷn â sefydlu'r ysgol feithrin gyntaf yng Nghaerdydd. Yn festri hen Eglwys y Crwys oedd hynny, ond cyn hir symudodd i Dŷ'r Cymry, lle pery'n llewyrchus o hyd. Braf oedd cael cwmni dwy o brifathrawesau'r Feithrin yn Nhŷ'r Cymry - Elaine Griffiths a fu'n brifathrawes am ddeunaw mlynedd a Jan Rees y brifathrawes bresennol. Hefyd Ann Williams a fu'n eu cynorthwyo am chwe blynedd tra 'roedd ei thair merch yn y Feithrin a hithau nawr yn drysorydd y Tŷ ac yn ymddiriedolwraig.

Roedd Gwilym Williams, Cricieth, yn llywydd y Tŷ mewn cyfnod o argyfwng a bu Eric Evans, Pontypridd, yn ysgrifennydd y Tŷ am flynyddoedd. Mae Dafydd Hampson-Jones yn gadeirydd ers blynyddoedd ar un o'r elusennau, sef Ymddiriedolaeth Bryntaf, sy'n defnyddio Tŷ'r Cymry fel ei swyddfa gofrestredig. Clywsai Dafydd am bwysigrwydd Tŷ'r Cymry gan ei dad, Victor Hampson-Jones.

Y Dr E Wyn James a arweinai Eglwys Efengylaidd Gymraeg pan oedd yn cynnal ei hoedfaon yn Nhŷ'r Cymry. "Cawsom hwylustod a chefnogaeth i gynnal ein cyrddau yn y Tŷ" meddai. "Tyfu y gwnaethom ni fel cynulleidfau yn Nhŷ'r Cymry nes i'r ystafell fynd yn rhy fach inni." Mae'n galonddid i Bwyllgor y Tŷ bod yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg llewyrchus erbyn hyn, yn cofio am ei blynyddoedd yn Nhŷ'r Cymry.

Bu Cymdeithas yr Iaith yn y Tŷ am dros 30 mlynedd ac fe soniodd Gareth Kiff a gynrychiolai Gymdeithas yr Iaith, am y degawd y bu'n llafurio o'i swyddfa ar lawr ucha'r Tŷ fel swyddog i Gell Caerdydd. Am flynyddoedd roedd waliau Tŷ'r Cymry wedi eu papuro â thoriadau o bapurau newydd yn olrhain gweithgarwch aelodau'r Gell. Soniodd Gareth am y dosbarthiadau dysgwyr fyrdd a drefnai'r Gell yn y Tŷ ddiwedd yr wythdegau ac yn y nawdegau. Cynhelid chwe dosbarth yr wythnos ar gyfer gwahanol lefelau o ddysgwyr ac ugeiniau yn cofrestru bob dechrau tymor. Gareth, hefyd, a ddechreuodd Fenter Iaith Caerdydd yn Nhŷ'r Cymry.

Elusen arall sy'n defnyddio'r Tŷ'n gyson yw CAG / WEA. Bu'n cynnal dosbarthiadau llenyddiaeth a hanes Cymru, Cymdeithaseg a Sefydliadau Cymreig ers pymtheng mlynedd. Un o ffyddloniaid y dosbarthiadau a Chymdeithas y Tŷ yw Dewi Wyn Thomas a gyfarchodd y Tŷ ar ran yr



elusen addysgol.

Mudiad arall a ddefnyddiodd Dŷ'r Cymry fel ei swyddfa genedlaethol oedd Mudiad Addysg Gristnogol Cymru. Y Parch. Casi Jones, gweinidog y Tabernacl y Barri nawr, oedd ei ysgrifennydd gweithgar tra bu yn y Tŷ.

Alan Jobbins oedd olynnydd John Osmond a Robin Reeves yn y swydd o ysgrifennydd Ymgrych Senedd i Gymru. Tŷ'r Cymry oedd pencadlys yr Ymgrych am tua degawd ac oddi yno y trefnwyd y frwydr amhleidiol gan drefnu cyfarfodydd a dosbarthu cannoedd o filoedd o daflenni. Roedd gan Dŷ'r Cymry ei le yn y frwydr i ennill inni'r Senedd, oedd i'w hagor yn swyddogol drannoeth.

Cadwyd Owen John Thomas AC hyd yr olaf, er ei fod ef yn gysylltiedig â Thŷ'r Cymry dros ddegawdau. Gweithiai'n ddiplino dros gynifer o weddau ar y Gymraeg yng Nghaerdydd a hynny am ddeugain mlynedd. Ac ef a'i swyddfa etholaeth yn y Tŷ yw prif noddwr Tŷ'r Cymry ers chwe blynedd. Mae ef hefyd yn un o ymddiriedolwyr hynaf y Tŷ. Yn ei sylwadau hanesyddol ar Gymreictod Caerdydd, cyfiawnhaodd eto ei gyflwyniad fel gwleidydd gwir ddiwylliedig ein Senedd.

### Dylan Jones

**Gwasanaeth adeiladu  
a dylunio gerddi.**

Ffon gartref : 20512567

Symudol : 07890134514





# Calendr y Dinesydd

## Llun, 10 Ebrill

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. 'Noson i'n synnu a'n rhyfeddu. Cyfarfod Blynyddol', yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30pm.

## Llun, 10 Ebrill

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni'r Parch. Aled Edwards yn festri Bethany, Rhiwbina am 7.30pm.

## Mercher, 12 Ebrill

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Taith dywys drwy gyfrwng y Gymraeg. Dewch i Sain Ffagan i ddysgu am draddodiadau'r Pasg, am 12 o'r gloch.

## Gwener, 14 Ebrill

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Gwasanaeth Gwener y Groglith dan ofal y Parch. Gwynn ap Gwilym yn Eglwys Dewi Sant am 2.00pm.

## Mercher, 19 Ebrill

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00pm.

## Sadwrn, 22 Ebrill

Cynhadledd Undydd i ddathlu canmlwyddiant sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn Sefydliad Oakdale, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Sgyrsiau gan Beth Thomas ar gasgliadau'r Amgueddfa Werin; D. Roy Saer ar ganu'r Fari Lwyd; Rhiannon Ifans ar draddodiad y canu plygain; ac E. Wyn James ar y faled ym Morgannwg, ynghyd â datganiad gan Delwyn Siôn: 'Canu Gwlad Morgan'. Manylion pellach: Dr E. Wyn James 029-2062-8754; [JamesEW@caerdydd.ac.uk](mailto:JamesEW@caerdydd.ac.uk); [www.canugwerin.org](http://www.canugwerin.org)). Bydd cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg. Mynediad yn rhad ac am ddim. Croeso cynnes i bawb.

## Mawrth, 25 Ebrill

Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) gan Robert Rhys (Prifysgol Cymru, Abertawe) yn Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

## Mawrth, 25 Ebrill

Cyfarfod i goffâu hil-laddiad yr Armeniaid. Yn y Deml Heddwch, Parc Cathays (y siambr, llawr cyntaf) am 7.00pm. Croeso i bawb. Cyfle i gyfarfod yn anffurfiol â chymuned Armeniaid Caerdydd. Bydd lluniaeth.

## Mercher, 26 Ebrill

Cerddorfa Camerata Wales o dan arweiniad Owain Arwel Hughes yn perfformio yn Neuadd Dewi Sant am 7.30pm.

## Iau, 27 Ebrill

Darlith gan Lois Dafydd ar y testun 'Helen Rowlands a'r Genhadaeth i'r India', yn yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

## Gwener, 28 Ebrill

Cymrodorion Caerdydd yn ymuno â Chymrodorion y Barri mewn noson o adloniant yng nghwmni Ryland Teifi i ddathlu canmlwyddiant sefydlu Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.00pm.

## Gwener-Sadwrn, 28-29 Ebrill

Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Camp a Rhemp', drama newydd gan Tony Llewelyn, yn Neuadd Llanofor. Manylion pellach: 01286-676335. Tocynnau: 029-2030-4400.

## Mercher, 3 Mai

Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson y Llywydd, Rhiannon A. Evans, 'Brethyn Cartref - Fy Milltir Sgwâr', yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

## Mercher, 3 Mai a Iau, 4 Mai

Theatr Genedlaethol Cymru yn perfformio Esther, Saunders Lewis. Yn Theatr y Sherman, Caerdydd.

## Sadwrn, 6 Mai

Côr Philharmonic Caerdydd yn perfformio 'Missa Solemnis' (Haydn) yn Neuadd Gyngerdd Prifysgol Caerdydd, Heol Corbett, am 7.30pm. Tocynnau: £6.

## Llun, 8 Mai

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Allan i de prynhawn, yn y Bae.

## Iau, 11 Mai

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Herio Caethwasiaeth' dan ofal y Parch. Denzil John yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

## Sadwrn, 13 Mai

Cymdeithas Carnhuanawc. Taith o amgylch sir Frycheiniog dan arweiniad Brynach Parri. Manylion pellach: Nans Couch (2075 3625) neu Catherine Jobbins (2062 3275).

## Llun, 15 Mai

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson ym myd y theatr yng nghwmni Arthur Morris Jones yn festri Bethany, Rhiwbina am 7.30pm.

## Llun, 15 Mai

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Y Wiwer Goch.' Darlith gan Bethan Jones (Cyfeillion Gwiwerod Coch Môn), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso

## Côr Hamdden Aelwyd Caerdydd yn symud

Oherwydd problemau parcio o gwmpas Capel Minny Street lle y cynhaliwyd ymarferion y Côr penderfynwyd symud oddi yno i gynnal yr ymarferion yng Nghapel Bethel Rhiwbeina a bu'r cyfarfod cyntaf yn y man ymarfer newydd ar 8 Mawrth. Mae dros drigain o aelodau yn y Côr ac mae croeso i ragor ymuno a'r Côr. Cynhelir yr ymarferion unwaith bob pythefnos rhwng 2 a 4 y prynhawn. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r arweinydd Eilonwy Jones ar 2069 1685. Oedd ymddangosiad diweddaraf y Côr mewn Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd Dewi Sant Caerdydd ar nos Sul 26 Mawrth i ddechrau'r paratodau ar gyfer croesawu Eisteddfod Genedlaethol Cymru i'r brifddinas yn 2008.

i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

## Mawrth, 16 Mai

Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Noson y Llywydd, Islwyn Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15pm.

## Mercher, 17 Mai

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Anerchiad ar 'Y Cynulliad a'i Lywodraeth' gan Owen John Thomas, AC, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00pm.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;*

*E-bost: [JamesEW@caerdydd.ac.uk](mailto:JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Caerdydd: [www.echllysur.com](http://www.echllysur.com)

## Yn priodi cyn bo hir?

Wedi trefnu'r adloniant?  
Naddo?

Felly,

**Gwasanaethau 007**

amdani !

DISGO DWYIEITHOG  
ASIAN TWP  
SYSTEM SAIN I AREITHIAU  
RIG GOLEUO I GRWPIAU BYW

Cysylltwch â Ceri ar  
07774 816209 neu  
029 2020813812  
[ceri33@btopenworld.com](mailto:ceri33@btopenworld.com)

Ar gael dros Gymru benbaladr  
a thu hwnt

## OWAIN ARWEL HUGHES A CAMERATA WALES YNG NGHAERDYDD

Am 7.30pm ar nos Fercher 26 Ebrill fydd Camerata Wales sef cerddorfa fwyaf newydd Cymru a sefydlwyd gan Owain Arwel Hughes, yn perfformio eto yn Neuadd Dewi Sant. 'Roedd y cyngerdd cyntaf fis Medi diwethaf yn llwyddiant mawr gyda'r beirniaid cerdd leol yn canmol y gerddorfa i'r cymylau. Y rhaglen y tro yma ydy Agorawd y Silken Ladder gan Rossini, Sea Sketches gan Grace Williams, Concerto i'r Corn Ffrengig gan Mozart a Symffoni Rhif 3 (yr Eroica) gan Beethoven. Dewch yn llw a byddwch yn siŵr o gael gwledd.

## CODI ARIAN I GYNNAL Y DINESYDD

Mae Cymry Caerdydd wedi dangos eu cefnogaeth syfrdanol i'r Dinesydd yn y ffordd fwyaf hael y gallasai Pwyllgor y Dinesydd amgyffred drwy gyfrannu bron i £5,000 mewn dau fis. Ar ôl y fath ymateb mae'n ddyletswydd ar y Pwyllgor i wneud yn siŵr fod y papur yn aros yn ddiddyled i'r dyfodol drwy gael incwm da bob mis. Mae tair ffordd y gall cwmnïau neu unigolion helpu.

1 **hysbysebu** eu cwmni yn y papur - tudalen am £300, ½ tudalen am £160, ¼ tudalen am £80

neu

2 **noddi** rhifyn - £200 neu fwy!

Fe fydd noddwr yn cael ei gydnabod a'i ddiolch mewn lle amlwg yn y rhifyn. neu

3 **roi rhodd** uniongyrchol - un ai am un tro neu yn rheolaidd fisol, chwarterol neu flynyddol. Mae hwn yn ffordd dda o dalu am y Dinesydd fesul blwyddyn yn hytrach na fesul rhifyn drwy archeb banc blynyddol am £10.

Fe fuasai Pwyllgor y Dinesydd yn ddiolchgar iawn i chi pe buasai cwmnïau neu unigolion yn ystyried gweithredu yn un o'r tair ffordd uchod i helpu cadw'r Dinesydd yn fyw.

Os am hysbysebu a fuasech gystal â chysylltu â Siân Lewis ar 02920-565658 neu [sian@dinesydd.com](mailto:sian@dinesydd.com)

Os am noddi a fuasech gystal â chysylltu â Peter Gillard ar 01446-760007 neu [pagillard@yahoo.co.uk](mailto:pagillard@yahoo.co.uk)

Os am roi rhodd a fuasech gystal â'i yrru at Drysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG

## Apêl y Dinesydd

Daeth rhagor o gyfraniadau i law Gwilym Roberts ers cyhoeddi rhifyn Mis Mawrth o'r Dinesydd mewn ymateb i'r apêl ariannol. Gweler isod enwau caredigion yr achos ac rydym yn ddiolchgar iawn iddyn' nhw ac i bawb arall sydd wedi cyfrannu. Mae'r cyfanswm i fyny at £4,430 erbyn hyn!!

Alun a Linda Thomas  
Arthur Morris Jones  
Ysgol Gymraeg Pwll Coch  
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd  
Mansel a Kathleen Jones  
Eirian Edwards

## CYMDEITHAS CARNHUANAWC

Ar nos Fercher, 8 Mawrth 'roedd un o'r ystafelloedd Canolfan Chapter yn llawn i wrando ar Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn traddodi Darlith Flynyddol Carnhuanawc ar y testun 'Dau ddeallusydd diwylliant - Carnhuanawc a Raymond Williams'. Roedd y ddarlith yn agoriad teilwng iawn i flwyddyn arall o ddogwyddiadau amrywiol sydd wedi cael eu trefnu gan Gymdeithas Carnhuanawc (gweler <http://uk.geocities.com/ajcouch/Carnhuanawc>.)


Yr achlysur nesaf yw taith o amgylch Aberhonddu dan arweiniad Brynach Parri ar ddydd Sadwrn, 13 Mai. Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch â Nans Couch (2075 3625) neu Catherine Jobbins (2062 3275).

## BRAWD GARWCH CYMRU-ARMENIA

Mae gwahoddiad cynnes i ddarllenwyr Y Dinesydd i'r Deml Heddwch ar nos Fawrth, 25 Ebrill am 7pm i goffau **Hil-laddiad yr Arminiaid** mewn cyfarfod yn y siambr ar y llawr cyntaf. Bydd cyfle i gyfarfod yn anffurfiol a chymuned Arminiaid Caerdydd. Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan gynrychiolwyr capeli etc a fyddai'n fodlon gwerthu nwyddau o Armenia yn eu heglwysi, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwarchae economaidd ar y wlad o du Twrci. Cofier fod cysylltiad hen iawn rhwng Cymru ac Armenia. Canodd y bardd Gwyndud yn 1896 fel hyn:

"Ti fwyn Gymru Gristionogol,  
Tros yr iawn bob amser gaed,  
Cod dy lais at Dduw a dynion  
Dros Armenia yn ei gwaed."

John a Beryl Hall  
Rhisiart Arwel  
Sandra de Pol  
Gareth Edwards  
Gwyneth Samuel  
M Griffiths  
Beti a Terry Williams  
Cor Meibion Taf  
D Arfon Williams  
Phil ac Angharad Ellis  
Glyn a Helen Evans  
John a Valmai Davies  
Alma, Richard a Rhys Carter  
Alun a Mair Treharne  
E Gwenllian Rokkan  
Ysgol Bro Morgannwg



## Cydymdeimlo

### Cydymdeimlwn â...

Meifis Griffiths, Llangoedmor, Aberteifi, a'i theulu ar golli ei gŵr Trevor wedi cystudd hir, yn ei gartref ar 19 Chwefror. Magwyd Trevor yng Nghaerdydd a bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Howardian ac yn aelod selog o Aelwyd yr Urdd Caerdydd. Deintydd oedd wrth ei alwedigaeth a bu'n gynghorydd ac yn Faer tref Aberteifi. Bu'r angladd yng Nghapel Mair Aberteifi a 4 Mawrth ac yn dilyn ym mynwent Capel Saron, Llangeler.

theulu'r diweddar Gwynn Jones, Rhiwbeina a fu farw'n sydyn yn ei gartref ar 31 Ionawr. Bu'r angladd yn Amlogfa'r Ddraenen. Llanisien ar 10 Chwefror. Brodor o Dalybont, Aberystwyth oedd Gwynn a bu'n athro yn Ysgol Gyfun Ystradgynlais cyn ymddeol a dod i fyw i Riwbeina.

Alun Thomas a'r teulu ar golli ei dad Les Thomas yn "Cartref", Lake Road East, ar 6 Mawrth. Bu'r angladd yng Nghapel Minny Street ar 10 Mawrth ac yn dilyn ym mynwent yr Hen Fethel, Garnant.

theulu'r diweddar Gwenhwyfar Jones, Rhiwbeina a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 17 Mawrth. 'Roedd yr angladd yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina ar 24 Mawrth ac yn dilyn yn Amlogfa'r Ddraenen, Llanisien. Bu Mrs Gwenhwyfar Jones yn hynod o ffyddlon i Fethel ers iddi ddechrau dod i'r oedfaon rhyw flwyddyn yn ôl. Roedd yn 81 oed, yn frodor o Cross Keys ac yn athrawes wrth ei galwedigaeth. Bu ei diweddar phriod, Haydn yn aelod o Gôr Hamdden Caerdydd ac yn ysgrifennydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.



## AWDUR YN CYFLWYNO'I GYFROL GYNTAF

Roedd nifer o ddarllenwyr brwd i'w gweld yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Chapter yn Nhreganna, Caerdydd ar Ddiwrnod y Llyfr, nos Iau, Mawrth 2. Roeddent wedi ymgasglu ynghyd ar gyfer achlysur o gyhoeddi cyfrol newydd gan awdur ifanc. "Ffawd, Cywilydd a Chelwyddau" (Y Lolfa, £7.95) yw nofel gyntaf Llwyd Owen, sydd wedi ei eni a'i fagu yn y brifddinas.

Cafwyd darlenniad o'r gyfrol, yn ogystal â chyfle i wrando ar sesiwn holi ac ateb byr gyda'r awdur ei hun. Diweddwyd y noson gydag adloniant gan Fflur Dafydd a cherddoriaeth bellach gan DJs Gardd Edam.

Mae'r gyfrol yn rhoi darlun cignoeth o fywyd dinesig a byd y cyfryngau gan fynd i grombil enaid ifanc sydd ar goll mewn swydd wael yng Nghaerdydd. Dyn sy'n cael ei gorddi gan ei orffennol a'i bresennol anobeithiol ac sy'n boddi ei ofidiau yn yr is-fyd dinesig.

Mae hi eisoes wedi denu cryn dipyn o sylw oherwydd ei natur feiddgar, ddigyfaddawd. Yn wir, gwrthododd y beirniaid wobrwyo'r llyfr yng Ngwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau'r llynedd am sawl rheswm. 'Roedd amheuan am ieithwedd y nofelydd ac am fod y nofel "yn mynd tu hwnt i derfynau diogel cyhoeddi arferol". Ar y llaw arall dywed y beirniaid mai gan yr awdur oedd y "meddwl praffaf ac athrylith fwyaf" yn y gystadleuaeth a disgrifio'r awdur fel "nofelydd athrylithgar a chanddo stori wefreiddiol i'w hadrodd".

Yn ôl Llef Gruffudd o'r Lolfa mae amryw sydd eisoes wedi darllen y nofel wedi ymateb yn hynod ffafriol gan ddweud mai dyma'r nofel Gymraeg difyrffaf iddyn nhw ei ddarllen ers blynyddoedd maith. Mae'n sicr yn torri tir newydd yn y Gymraeg ac yn ddarlleniad difyr sy'n adleisio rhywfaint o *Catcher in the Rye* a llyfrau Irvine Welsh.

Yn ôl Llwyd ei hunan, "Er mod i'n croesawu'r cyhoeddusrwydd, fedra i ddim deall pam bod cymaint o stŵr wedi codi. Maen nhw yn dweud wrthoch chi am ysgrifennu am yr hyn yr ych chi'n gwybod... felly croeso i'm byd! Does ond gobeithio y cyrhaedda'r nofel ei chynulleidfâ darged ac yn annog rhywfaint o'r 'genhedlaeth goll' o ddarllenwyr Cymraeg ifanc yn ôl i



## ORIAU HAPUS

Ers dros pedair blynedd nawr yn ystod 'Yr Awr Hapus' bob bore Llun rhwng 11 a 12 ym mar Salingers yng Ngwesty'r Pentref, Coryton, mae'r dysgwyr yn cyfarfod i ymarfer eu Cymraeg. Yn ystod mis Mawrth buont yn darllen a chyfieithu taflenni Cwmni BT a'i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a llythyr apêl ariannol (llwyddiannus!) i'r Dinesydd Gwilym E Roberts, Rhiwbeina.

Bu cyfarfod 'Pnawn Sul Misol Hapus' am yr ail waith yn nhŷ John a Thelma, 8 Heol Santes Marged. Bydd cyfarfod Ebrill ar Sul y Pasg Bach sef 23 Ebrill o 2.45 tan 4.00 o'r gloch pan fyddem yn trafod hanes y disgybl Tomos yr Anghredadun, yn Efyngyl Ioan. Croeso cynnes i bawb. Am ragor o fanylion cysylltwch â Gwilym Dafydd ar 2065 7108 neu e-bostiwrch

[erian.dafydd@ntlworld.com](mailto:erian.dafydd@ntlworld.com)

## CÔR PHILHARMONIC CAERDYDD

Mae Côr Philharmonic Caerdydd yn estyn croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â ni yn ein hymarferion bob nos Fercher am 7.30 yn Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Heol Corbett. Yn arbennig byddai'n dda gennym groesawu TENORIAID i'n plith. Ar hyn o bryd mae'r côr, dan arweiniad Alun Guy, yn ymarfer ar gyfer cyngerdd ar Mai 6 2006 pan fyddwn yn perfformio un o weithiau Haydn - Missa Solemnis.

Am fanylion pellach ffoniwch Gwenda Francis ar 029-20626779.

lenyddiaeth Cymraeg."

Mae Llwyd Owen yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf ac yn fab i Arwel a Non Owen, Cyncoed. Mae o'n briod â Lisa ac mae dau o blant ganddyn' nhw.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Siân a Dean Williams, Meisgyn, ar enedigaeth eu mab, Ioan Rhys, brawd bach i Hanna, ar 6 Chwefror yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae Ioan yn wŷr i Sheila a'r diweddar Karl Williams, Tonyrefail ac i Merhis a Brian Davies, Radur.

Llongyfarchiadau i Prys a Sioned Dafydd, Pontcanna ar enedigaeth Lewys, eu cyntaf-anedig ar 20 Chwefror. Wŷr i Elinor Davies, Llandaf a Gwyn ac Eryl Evans Llandre.

Llongyfarchiadau i Tomos a Rebecca Edwards Llundain ar enedigaeth eu mab Archie Llywelyn Edwards Owen ar 16 Ionawr yn Ysbyty St Margaret's Llundain. Un o'i neiniau ydy Elinor Talfan gynt o Gaerdydd.

## MERCHED Y WAWR, BRO RADUR

Da oedd gweld cynifer o aelodau Merched y Wawr, dan lywyddiaeth Mrs. Marian Evans, yn ein cyfarfod ar 8 Mawrth. Ar ôl y materion busnes a'r cyhoeddiadau, croesawyd Mrs Eirlys Roberts, o Aberystwyth, fel aelod newydd.

'Roedd yn bleser croesawu'r Dr Dafydd Huws, ein siaradwr gwadd. "O Kakamega i Gaerffili" oedd testun ei sgwrs. Pam Kakamega, meddech chi? Dyma'r pentref yn Affrica ble treuliodd gyfnod bore oes, ble roedd ei dad yn gweithio.

Fe symudasant fel teulu, i Landre, Sir Aberteifi wedyn - eu milltir sgwâr. Ar ôl dyddiau ysgol aeth i'r Coleg Meddygaeth yng Nghaerdydd. Hyd ei ymddeoliad bu'n feddyg yn Ysbyty Eglwys Newydd Caerdydd. Mae ei gartref yng Nghaerffili. 'Roedd yn flaenllaw yng ngwaith Plaid Cymru, a bu'n ymgeisydd seneddol dros y Blaid. Roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn.

Ar ôl y cyfarfod cawsom banded chacen gri, ac aeth yr elw o £85 i gronfa Bopath Cymru.

Mae'r cyfarfod nesa' ar Ebrill Sed. "Sampleri" gyda Mrs. Marian Evans - croeso cynnes i bawb.



www.mentercaerdydd.org  
029 20565658

### Cynllun Gofal Gwyliau'r Pasg

Fe fydd Cynllun Gofal y Fenter yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r Pasg ar y dyddiadau canlynol

Dydd Llun, Ebrill y 10fed – Dydd Iau, Ebrill y 13eg

Dydd Mawrth, Ebrill y 18fed – Dydd Gwener, Ebrill yr 21ain

(Ni fydd Cynllun Berllan Deg na Melin Gruffydd ar agor Ddydd Mawrth Ebrill y 18fed).

Fe fydd teithiau i'r Sinema ac i Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Croeso i blant mewn ysgolion Cymraeg o ddsbarth derbyn hyd at flwyddyn 6. Cost dyddiol o £14.50 y plentyn. Dyddiad cau i gofrestru: Dydd Llun, Ebrill y 3ydd. Mae lle i nifer cyfyngedig o blant, felly cofrestrwch yn gynnar rhag cael eich siomi.

Am fanylion pellach neu ffurflen gais ffoniwch y swyddfa ar 029 20 56 56 58 neu e-bostiwch rachaelevans@mentercaerdydd.org

### MIRI MEITHRIN

Fe fydd Miri Meithrin yn cael ei gynnal dros wyliau'r Pasg yng Nghanolfan Channel View yn Grangetown. Dyma'r dyddiadau o dan sylw:

Dydd Mawrth, Ebrill 11, 10 – 11.30yb

Dydd Iau, Ebrill 20, 10yb – 11.30yb.

Addas ar gyfer plant 0-4 oed a'u rhieni. Mynediad yn £1.50 y plentyn.

Nid oes angen cofrestru o flaen llaw.

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Wedi'i gofrestru gyda NICEIC i arolygu a gosod systemau trydan a chawodydd yn unol â Rheoliadau Adeiladu Adran "P"

Prisiau Rhesymol

Ffoniwch  
Caerwyn Davies

(T/A Davies Electrical)  
ar 029 20868208  
neu 07967 558664



Côr Canna bu'n diddanu'r dorf enfawr a ddaeth i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y Mochyn Du ar Fawrth y cyntaf!

### Taith Sgïo Menter Caerdydd i Awstria!

Aeth 16 ar daith Sgïo Menter Caerdydd i Alternmakt, Awstria fis Mawrth. Cafodd y criw amser gwych a digon o eira, sgïo, cymdeithasu a chanu! Y bwriad yw cynnal taith eto fis Mawrth 2007!



Y criw sgïo

### Cwis Cymraeg

Fe fydd cwis cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Ebrill y 30ain yn y Mochyn Du am 8yh. £1 y person



### Sesiynau Cerddoriaeth Meithrin

Yn dilyn llwyddiant Miri Meithrin, mae Menter Caerdydd yn mynd ati i gynnal sesiynau cerddorol i blant 18 mis i 4 mlwydd oed a'u rhieni.

Mae'r sesiynau yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Gymunedol Maes y Coed, Jubilee Gardens, Y Waun.

Dydd Mawrth Ebrill 25 a Dydd Mawrth Mai 23.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rachael Evans 029 20 56 56 58 rachaelevans@mentercaerdydd.org



### TAFWYL – Gwyl Gymraeg Caerdydd – Mehefin 17-25, 2006

Eleni, am y tro cyntaf, mae Menter Caerdydd ynghyd â nifer o bartneriad a chymdeithasau Cymraeg y ddinas yn mynd ati i drefnu wythnos o weithgareddau Cymraeg o dan faner TAFWYL – Gwyl Gymraeg Caerdydd. Dyddiadau'r Wyl eleni bydd 17-25 o Fehefin. Yn ystod yr wythnos, fe fydd y gweithgareddau'n cynnwys Ffair Tafwyl, Cymanfa Ganu, Sesiynau Chwaraeon i blant, Cystadleuthau Pel-Droed a Rygbi i Oedolion, Miri Meithrin, Twrnament Golff, Gigs, Noson Lenyddol, Noson Gomedi, Gwyl Ifan, Sadwrn Siarad i Ddysgwyr, Cwis Cymraeg a llawer mwy!!! Os hoffech wirfoddoli i helpu gyda'r trefniadau neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn y swyddfa ar 029 20 56 56 58.

## Newyddion o'r Eglwysi

### *Mিনny Street, Caerdydd*

#### **Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theuluoedd a chyfeillion dau o'n haelodau fu farw yn ystod yr wythnosau diwethaf, sef **Mr Leslie Thomas** (Manor Way gynt er yn "Cartref", Parc y Rhath ers peth amser bellach) a **Mrs Gwenhwyfar Jones** (Rhiwbeina). Cofiw'n yn annwyl a diolchgar am eu cyfraniadau.

#### **Bedyddio**

Braint a hyfrydwch, ar fore Sul, 19 Mawrth, oedd cael tystio i fedydd **Elin Mared Roberts**, merch Non ac Aled (Gabalfa). Dymunwn bob bendith i'r teulu.

#### **Y Gymdeithas**

Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas yng Nghlwb Golff Llanisien. Fel arfer ni chafodd neb eu siomi gyda'r bwyd blasus a'r gwmniaeth ddifyr. Eleni, y gwetai gwadd oedd yr Athro Glyn a Mrs Gwladys Jones. Cawsom glywed Glyn yn sôn am ei brofiadau yn ardal Epynt wrth iddo fynd o amgylch cartrefi yn casglu a chofnodi ieithwedd arbennig yr ardal.

Cafwyd noson arbennig arall bythefnos wedyn wrth i bedair o "Famau Minis Minny" ein tywys drwy eu diddordebau, magwraeth a'u gwaith. Cawsom gip olwg yn ôl ar gapel Minny Street drwy lygaid un a fagwyd yn ei chymdeithas, ynghyd â blas ar weithgarwch ein llysoedd, gan Rhian Williams. Dysgu ychydig o Gatalaneg wnaethom gyda chymorth Siân Edwards a meddwl am y doreth ffyrdd o ddefnyddio saws tomato a winwns i greu prydau bwyd blasus, maethlon a deniadol i blant dan arweiniad Nia Evans. Cipolwg difyr ar fagwraeth gwraig Gweinidog wedi ei blethu'n gywrain â barddoniaeth a chaneuon gawsom gan Lona Evans. Diolch i'r pedair am adael y plant yng ngofal eu gwŷr am noson a rhoi orig gwerth chweil i'r Gymdeithas.

#### **Pythefnos Masnach Deg**

Penderfynwyd gwneud ymdrech arbennig eleni i hyrwyddo Pythefnos Masnach Deg, ac fel rhan o'n gweithgarwch cynhaliwyd Egwyl Goffi wedi'r oedfa foreol ddydd Sul 12 Mawrth. Gwahoddwyd ein cymdogion (preswylwyr ac eglwysi) yn y Waun Ddyfal i ymuno â ni am baned a

### *Capel Bethel, Penarth*

Mae Cyngor y capel yn brysur yn trefnu gweithgareddau'r flwyddyn gyda syniadau diddorol a chyffrous yn dod i law. Bu sôn am daith gerdded, cyngerdd, cymun yn yr awyr agored ym Mharc Cosmeston a nifer o bethau eraill. Fel y dywed y Sais, "Watch this space".

O ddechrau Ebrill ymlaen mae'r capel yn mynd i drefnu cyfnodau o 10:30 hyd 12:30 ar y Dydd Mercher cyntaf a thrydydd o'r mis lle bydd y capel ar agor er mwyn rhoi croeso i bwy bynnag a ddaw ar draws y rhiniog er mwyn paned a chlonc. Nid ar gyfer aelodau'r capel yn unig y bydd y drysau ar agor. Estynnwn groeso i unrhyw un a ddaw i Benarth am dro.

Mae Cylch Meithrin Bethel yn awr yn swyddogol ac wedi'i gofrestru i gymryd 18 o blant rhwng 2 flwydd a hanner i 4 mlwydd oed ac mae'r gofrestr yn llawn. Mae'n gweithredu o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9:15 a 11:45 y bore. Cafwyd yr arolwg cyntaf ac adroddiad cadarnhaol a chanmoladwy wedi'r achlysur.

Fel sy'n amlwg yn y Cwrdd Plant misol mae'r Ysgol Sul yn mynd o nerth i nerth dan arweiniad Catrin Evans a Sara Gwilym.

Er nad oes Bugail gyda ni mae'r praid yn frwdfrydig yn y gorlan a'r newidiadau megis sefydlu Cyngor i gymryd drosodd cyfrifoldebau'r Diaconiaid yn cynyddu bwrlwm bywyd Bethel. Mae'r oedfaon yn dechrau am ddeg y bore a chwech yr hwyr ac os galwch draw bydd croeso twymgalon i chi yn ein plith.

chacennau amrywiol wedi eu paratoi gan yr aelodau drwy ddefnyddio ffrwythau, siwgr a nwyddau eraill Masnach Deg. Hyfryd oedd cael croesawu cynrychiolwyr o dair eglwys gyfagos - rhai ohonynt wedi byw yn Y Waun Ddyfal am dros 40 mlynedd ond heb fod erioed i mewn yng nghapel Minny Street.

## *Tabernacl, Yr Ais*

#### **Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Geraint a Laura Williams ar enedigaeth Elinor, chwaer fach i Megan ac wyres ddiweddaraf Margaret Williams a chyfnither i Tomos, Hannah a Rhodri.

Estynnwn ein cyfarchion cynnes i Mrs Antony Lewis ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Hi yw mam Anton a Sue Lewis

Daeth y newyddion hyfryd bod Hannah Sennit a Nia Mclean ar gyrraedd sgwad tîm hoci Cymru (dan 13 oed). Llongyfarchiadau cynnes i'r ddwy ohonyn nhw.

Aeth Bethan Pickard i Efrog Newydd ddiwedd mis Mawrth gyda Band Chwyth Caerdydd a'r Fro i gymryd rhan mewn cystadleuaeth yn Carnegie Hall. Yn ffodus roedd ei mam, Shân a'i modryb Ann yn medru mynd i gefnogi Bethan.

#### **Cydymdeimlo**

Bu farw mam Huw Thomas, sef Mrs Lilian Thomas, o San Clêr ganol mis Chwefror, ac estynnwn i'r teulu cyfan ein cydymdeimlad mwyaf didwyll. Bu Mrs Thomas, fel ei phriod Bryn, yn amlwg eu cyfraniad ym mywyd yr eglwys a chofiw'n am ei hynawsedd didwyll a'i balchder yn ei theulu. Braint oedd ei hadnabod.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Mr Alan Patten ar achlysur marwolaeth ei briod Mary. Gwelsom hwy yn cefnogi boreau coffi'r Tabernacl bron bob Sadwrn yn ddi-ffael.

#### **Oedfa o Fawl.**

Diolch i Euros Rhys Evans am drefnu oedfa o fawl ym mis Chwefror. Roedd y canu yn hyfryd a hwyliog. Diolch i Aled John (allweddellau) a Siôn Llwyd (gitâr fâs) am eu cyfeiliant bywiog.

#### **Estyn Dwylo: Prosiect Codi Clinig yn Lesotho**

Ffocws ein prosiect yn Lesotho yn 2006 yw helpu i adeiladu clinig sy'n costio £16,000. Mae aelodau Tabernacl wedi cyfrannu £4,000 eisoes a daeth dros £530 i law yn dilyn cinio ysgafn yng nghartref Non a Gwenallt Rees.

#### **Cyngerdd Côr y Tabernacl**

Bydd y gyngerdd eleni ar nos Fawrth, 4 Ebrill pan fydd y côr yn cyflwyno Offeren y Coroni gan W A Mozart. Yr unawdwyr gwadd fydd Siriol Burford



## Salem, Treganna

### Swper Gŵyl Ddewi

Cawsom noson hwyliog yn y Churchills i ddathlu gŵyl ein Nawddsant, gyda'n siaradwr gwadd R. Alun Evans.

### Bedydd

Bedyddiwyd Ela a Gruffydd, plant Nia a Steve Tough ddechrau Mawrth yn Salem. Rydym yn dymuno'r gorau iddynt fel teulu.

### Clwb Llyfrau

Cyfarfû'r Clwb Llyfrau yn ystod y mis i drafod *The Small Island*.

### Blwyddyn 7 Plasmawr yn ymweld â Salem

Digwyddiad blynyddol bellach yw ymweliad blwyddyn saith Plasmawr â Salem, fel rhan o'u hastudiaethau crefyddol. Roedd y disgyblion yn llawn diddordeb ac wrth eu boddau'n holi pob math o gwestiynau i Evan. Cawsant gyfle i dalu sylw i'r adeilad fel man addoli, ac i holi am swydd Evan fel gweinidog a phwrpas a rôl Salem fel capel yn Nhreganna. Am fod cymaint o blant ym mlwyddyn saith eleni, bu'n rhaid gwneud 2 sesiwn. Diolch i blant Plasmawr am eu diddordeb ac am eu bwrlwm - mor braf oedd gweld cymaint o ieuenctid yn llenwi Salem.

### Clwb y Bobl Ifanc

Bu Clwb y Bobl Ifanc yn Bowllo Deg ddiwedd Mawrth.

## Tabernacl, Yr Ais (parhad)

(Soprano), Martha McLaurien (Contralto), Aled Hall (Tenor) a Craig Yates (Bâs). Gobeithiwn weld cynulleidfa eang yno i fwynhau'r wledd. Croeso!

### Cymdeithas Nos Fawrth

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Sioned Davies, Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Ei thestun oedd Y Mabinogi. Wedyn cafwyd noson yng nghwmni Margaret a Glyn Rees yn siarad am 'Ardaloedd ein Magwraeth'. Yna wythnos yn ddiweddarach trefnwyd Noson Eidalaid - Côr Meibion Cymry Caerdydd o dan arweinyddiaeth Rob Nicholls oedd a gofal am y noson. Yn ystod y gyngerdd, eisteddodd pawb wrth y ford i fwynhau pryd o fwyd Eidalaid ac fe gdwyd dros £400 tuag at gronfa Lesotho.

## Ebeneser, Heol Siarl

### Gwasanaeth Gŵyl Ddewi

Ar Sul cyntaf mis Mawrth cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r plant. Eto eleni roedd y plant yn gwisgo un ai gwisg draddodiadol neu grys rygbi. Cawsant stori i ddangos mai'r un yw pobl o oes i oes a dangoswyd llun o ddiaconiaid Ebeneser ym 1914 iddynt a gofyn beth oedd yn wahanol am y lluniau. Pwyslais y stori oedd mai'r un yw'r bobl o oes i oes.

### Gŵyl Bregethu hanner blynyddol

Croesawyd Euros Wyn Jones, Llangefni i'n plith i'n harwain mewn dwy oedfa. Cafodd y plant stori weledol am yr amrywiaeth yng nghreadigaeth Duw. Yn codi o'r testun oedd y dylem ni fyth fod â chywilydd o'n cyd-gristnogion nag Iesu Grist ond y dylem achub ar bob cyfle i roi tystiolaeth i'r Arglwydd. Yn oedfa'r nos wedyn soniodd am glyfrwch dyn dros y canrifoedd ond heb ein bod yn ufuddhau a gwasanaethu Duw, ofer yw'r cyfan.

### Y Gymdeithas

Cawsom noson i giniawa a dathlu Gŵyl Ddewi yn Sipros. Y gŵr gwadd oedd y cyn gweinidog, Parch D H Edwards, sydd yn adnabyddus i lawer fel trefnydd teithiau i wledydd fel yr Aifft ac Israel ac fe gawsom flas ar beth o'r anturiaethau a'r hwyl yr oedd yn ei gael gyda'i gyd-deithwyr wrth ymweld â'r amrywiol wledydd.

[www.ebeneser.ik.com](http://www.ebeneser.ik.com)

Wyddoch chi fod gennym wefan? Mae'r wefan sy'n araf ddatblygu gyda nifer o dudalennau yn cynnwys ein gweithgarwch a'n hanes. Gallwch bellach wrando ar wasanaethau'r Sul, edrych ar ein Digwyddiadur, cael straeon Cristnogol i blant, lawrlwytho tryloywon 'PowerPoint' addoliad neu ar emynwyr os mynnwch. Dowch, tarwch heibio i gael blas o'n gweithgarwch.

### Lobïo'r Cynulliad

Diolch i bawb, aelodau a chyfeillion, a anfonodd lythyron at swyddfa Adran Ffyrdd y Cynulliad. Ni wyddom eto beth fydd y cam nesaf yn yr hanes hwn. Bu'r swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'n cyfreithwyr, ac mae'r Awdurdod Lleol a'r Cwmni Datblygu yn awyddus i drafod y camau nesaf gyda ni.

## Eglwys y Crwys

### Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Mr Alun Tudwal Jones ar ei ddyweddïad â Miss Carina Spere.

### Y Gymdeithas

Dathlwyd Gŵyl Ddewi mewn cinio yng Nghlwb Golff Caerdydd ar nos Wener 24 Chwefror gydag anerchiad pwrpasol gan Mr Wynford Ellis Owen a seiniau caniadau'r 'bur hoff bau' gan y delynores wadd, Branwen Hefin. Fe estynnwyd croeso i bawb gan Lywydd y Gymdeithas am eleni Arthur Evans ac fe ddiolchwyd i bawb gan y Gweinidog y Parchedig Glyn Tudwal Jones.

### Y Gorlan

Siaradwr gwadd y Gorlan brynhawn Dydd Mercher 8 Mawrth oedd Mr Ifan Roberts o Bentyrch. Bu Ifan yn gwasanaethu'r cyfryngau rhwng Caerdydd a Bangor am y rhan fwyaf o'i yrfa a chafwyd peth o flas ei brofiadau difyr yn ystod yr orig a dreulwyd yn ei gwmni.

### Yr Ysgol Sul

Rhoddodd y plant wasanaeth o fyfyrdd, mawl a chryn hwyl ar fore Sul 5 Mawrth. Cafwyd anerchiad cyfoethog ar werth 'y pethau bychain' gan Mr Hefin Griffiths ac roedd y cyfanwaith o dan ofal David Jones. Enillodd y timau pêl-rwyd a phêl droed gryn glod yng nghystadlaethau chwaraeon yr Ysgolion Sul yn Aberdâr.

Bore Sul 7 Mai trefnwyd taith gerdded i aelodau'r Ysgol Sul ym Mharc Gwledig Cosmeston, Penarth. Bydd y daith yn cychwyn o'r capel am 11 o'r gloch.

### Y Gymdeithas Drama

Mae'r Gymdeithas Ddrama ar hyn o bryd yn paratoi dwy ddrama fer a lwyfennir yn fuan yn Theatr Crwys, sef 'O Law i Law' addasiad Huw Roberts o nofel enwog T Rowland Hughes a'r 'Ymadawedig' cyfieithiad R E Jones o'r ddrama Saesneg.

### Y Grŵp Merched

Nos Lun 13 Mawrth cafodd aelodau'r Grŵp Merched noson ddifyr iawn yn gwrandao ar Mr Peter Gillard yn cyflwyno anerchiad grymus ar ei ymweliad a rhai o wledydd y Dwyrain Pell a fu'n amlwg dros y canrifoedd yn y fasnach sidan, sbeis a gweithiau metal gwerthfawr. Fe'i cyflwynwyd gan y Cadeirydd Mrs Babs Evans a thalwyd diolchiadau gan Mrs Catherine Jobbins.

## YSGOL PWLL COCH

### Llwyddiant mawr yr Eisteddfodau

Bu plant yr ysgol yn llwyddiannus iawn mewn sawl eisteddfod sef

Eisteddfod yr ysgol lle buont yn canu, llefaru ac actio o flaen gwraig llysgennad Ciwba.

Eisteddfod Celf a Chrefft (Caerdydd a'r Fro) hefyd lle 'roedd plant yr ysgol yn amlwg iawn.

Eisteddfod Dawns yng Nganolfan y Mileniwm lle 'roedd dawnsyr disgo'r ysgol wedi dod yn drydedd yn y gystadleuaeth boblogaidd yma

Eisteddfod Gylch lle roedd cystadlu brwd a chryn lwyddiant eto i'r ysgol a gymerodd rhan mewn naw cystadleuaeth gwahanol ac ennill pedair.

### Diwrnod Gwyddoniaeth

Fel rhan o Wythnos Cenedlaethol Gwyddoniaeth fe gafon ni ddiwrnod o weithgareddau Gwyddoniaeth Difyr lle roedd llosgfynyddoedd yn ffrwydro hylif coch, rasy balwnnau, cwpanau papur, slwtsh, ciwbiau iâ gwahanol yn ymdoddi a llawer o bethau diddorol arall.

### Diwrnod rhyngwladol y llyfr

Dathlodd y plant a'r athrawon drwy wisgo fel cymeriadau o'u hoff lyfrau. Croesawyd nifer o ffrindiau'r ysgol i ddarllen stori a diolch o galon i Gwen Emyr, Rhiannon Evans, Catrin Hughes, Siw Hughes, Beth Jones, Huw Garmon, Dr Goodfellow, Evan Morgan, Geraint Morgan, Huw Morris, Jonathon Nefydd a Betsan Roberts am roi eich hamser.

### Pêl-droed

Chwaraeodd y bechgyn gêm yn erbyn Ysgol Lansdowne, ond colli 4-1 oedd y canlyniad. Fe chwaraeodd y merched eu gêm gyntaf erioed hefyd yn erbyn Ysgol Lansdowne ond colli 4-0 oedd y canlyniad eto. Serch y canlyniadau 'roedd perfformiad y ddau dîm yn wych.

### Rygbi

Ar 17 Mawrth chwaraeodd y tîm yn erbyn Ysgol Bro Eirwg. Mewn gêm galed iawn fe dangosodd y tîm llawer o ysbryd ond colli yn y diwedd. Mae'r disgyblion nawr yn cael gwersi rygbi gan Mr John Huw Williams sy'n gysylltiedig â chlwb rygbi Caerdydd ac fe fydd y sgiliau'n gwella o hyn ymlaen.

### Bywyd iach blwyddyn 4

Ar 22 Mawrth daeth pobl o 'Smoke Bugs' i siarad a phlant blwyddyn 4 am

## YSGOL PLASMAWR

### Cerddor Ifanc Ysgol Plasmawr

Yng Nghystadleuaeth Cerddor Ifanc yr ysgol llongyfarchiadau mawr i Stephanie Dyer am ennill y brif wobwr am chwarae'r trombôn ac i Manon Roberts am gipio'r wobwr iau am chwarae'r clarinét.

### Taith cyfnewid y Rennes

Bu grŵp o ddisgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio Ffrangeg i Rennes yn Llydaw ar daith gyfnewid. Fe wnaethon nhw ddysgu dawns draddodiadol Llydaweg, ymweld â thri abaty, fynd ar daith o amgylch adeiladau prydfferth Rennes a llawer o weithgareddau hwylus gyda'r nos heb yr athrawon!

### Cynllun Comeniws y Gymuned Ewropeaidd

Cafodd cais yr ysgol ei dderbyn ar gynllun Comeniws y Gymuned Ewropeaidd. Plasmawr fydd yr unig ysgol yng Nghymru a fydd yn rhan o

berylgon ysmegu. Cafodd y plant cyflwyniad diddorol a gwrs hynod o bwysig.

### Hybu Cig Cymru

Derbynwyd gwahoddiad oddi wrth 'Hybu Cig Cymru' i rai o blant Pwll Coch i'r lansiad o gêm gyfrifiadurol newydd yn Senedd Cynulliad Cymru ar 4 Ebrill.

### Ymweliadau.

Bu'r plant ar ymweliadau i Techniquet, Amgueddfa y Glannau yn Abertawe, Amgueddfa Sain Ffagan, Amgueddfa Llang Rhufeinig yn Caerllion, Castell Cyfarthfa, Llancaiach Fawr ac i Ganolfan Gymunedol Treganna i weld arddangosfa 'Croeso' am fywyd Paul Robeson.

### Ysgol Pwll Coch yn troi'n wyrdd

Rydym am ddod yn ysgol eco ac rydym wedi ymuno a'r 'Ymgyrch Sothach Sbwriel'.

### Catrin Finches y dyfodol!

Llongyfarchiadau mawr i 5 o ferched yr ysgol sydd wedi gynrhycholi'r Sir mewn cyfres o gyngherddau yn Neuadd Dewi Sant yn ddiweddar ac mae'r 5 wedi bod yn rhan o gôr telynu y sir ac wedi rhoi perfformiadau ardderchog!

bartneriaeth gydag ysgolion yn Ewrop. Bydd dwy ysgol yn ardal y Lot yn Ffrainc ac ysgol yn Utrecht yn yr Iseldiroedd yn gweithio gyda ni ar y cyd ar brosiect ar gofebion y Rhyfel Cyd Cyntaf. Hoffem ofyn yn garedig i holl ddarllenwyr Y Dinesydd os oes gan unrhyw un wybodaeth leol diddorol am gofeb yn yr ardal neu'n genedlaethol i roi gwybod i Mathew Evans neu Catrin Jones yn yr ysgol ar 02920405499. Diolch.

### Blas o'r Plas

'Roedd perfformiad Blas o'r Plas yn neuadd yr ysgol yn lwyddiant mawr gyda detholiadau allan o'r sioeau cerdd Nia Ben Aur a Judas a drama Gwenlyn Parry, 'Y Tŵr' a llawer iawn o berfformiadau eraill yn amrywio o unawdau ar y clarinét a'r delyn i ddawnsio, jazz a chomedi.

### Ymweliad Gwion Hallam

Fel un o weithgareddau Diwrnod y Llyfr ar Fawrth yr ail daeth yr awdur Cymraeg Gwion Hallam i'r ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Awdur y nofel Creadyn yw Gwion Hallam ac roedd ef yn yr ysgol i gynnal gweithdy ysgrifennu gyda ni ddisgyblion blwyddyn 9. Ar y diwrnod cawsom siawns i wrando, siarad a rhannu syniadau gyda'r awdur.

### Llongyfarchiadau

i'r disgyblion a fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych ar ddiwedd mis Mai

i Mr Gareth Hall Williams, Pennaeth Cynorthwyol yn yr ysgol a'i wraig Mrs Caryl Hall Williams ar enedigaeth eu gefeilliaid, Tom a Greta ar Chwefror 20fed.

i Mr Siôn Davies, Pennaeth yr Adran Addysg Gorfforol, a'i wraig Mrs Awel Emlyn ar enedigaeth eu mab, Ifan Emlyn ar Fawrth 9fed.

i'r disgyblion a enillodd ysgoloriaethau i wahanol prifysgolion

## Dathlu Gŵyl Ddewi

Bu gorymdaith o dros dau gant o bobl yn cychwyn o flaen Y Mochyn Du brynhawn Gŵyl Ddewi i gerdded i'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays.

Yna gyda'r nos â'r Mochyn Du dan ei sang cafwyd adloniant gan Gôr Merched Canna. Bu'n noson lwyddiannus dros ben.

## YSGOL GYFUN GLANTAF

### Dathlu pen-blwydd yn 21

Eleni mae cynllun cyfnewid Ffrangeg Glantaf yn dod i oed! Un mlynedd ar hugain o deithiau pleruser a chysylltu ag ysgol St Sébastien yn Landerneau, tref fechan yng ngogledd orllewin Llydaw. Mae sawl cenhedlaeth o ddisgyblion Glantaf wedi elwa o'r profiad o gael aros yng nghartrefi a chymdeithasu â Llydawyr ifanc Landerneau, wrth wella eu Ffrangeg llafar yr un pryd. Rydym ninnau yng Nglantaf wedi mwynhau ymweliadau blynyddol disgyblion ac athrawon St Sébastien.

I ddathlu'r pen-blwydd pwysig, cawsom barti yn yr ysgol yn ystod ymweliad y Llydawyr a chacen enfawr. Daeth y ddwy oedd yn gyfrifol am gychwyn y cyfnewid, sef Mrs Bethan Lewis, cynbennaeth Ffrangeg Glantaf a Mme Ségalen, athrawes Saesneg yn St Sébastien i dorri'r gacen - a mawr fu'r dathlu a'r bwyta.

Ymlaen i'r ugain nesaf – vive l'échange!


### Rhai o 6ed Glantaf yn llwyddo i ennill eu Dug Caeredin

Fe lwyddodd grŵp o saith o chweched Glantaf i gwblhau gwobr Dug Caeredin yn ddiweddar. Roedd yn rhaid dysgu sgiliau mynydda a darllen map ac ennill cymhwyster cymorth cyntaf. Y llwyddiant mwyaf i'r grŵp oedd cerdded dros 40 km ar hyd Penrhyn Gŵyr yn cario'r holl offer, bwyd a nwyddau a oedd angen arnynt ar y daith 3 diwrnod ac mewn seremoni wobrwyo ym mis Chwefror 2006, fe gyflwynwyd tystysgrifau iddynt gan seren rygbi Dreigiau Casnewydd Gwent, Gareth Baber.

### Gŵyl Glantaf 2006

Unwaith eto eleni roedd yr ŵyl yn lwyddiant mawr. 'Roedd ein diwrnod chwaraeon, gyda disgyblion yr ysgol gyfan yn cystadlu o bêl-rwyd i bêl-droed, o rygbi i denis bwrdd, o sboncen i'r pwll nofio, pawb yn mwynhau! Wedyn daeth diwrnod yr Eisteddfod! Cawsom fore llawn hwyl wrth i aelodau'r pedwar llys fynd ati i arddangos eu talentau, boed hynny ar ffurf unawdau cerddorol, dawns, gymnasteg, caneuon ieithoedd modern neu hyd yn oed yn bartion chwibanu. Roedd yr ôl baratoi yn amlwg, a chawsom berfformiadau lliwgar a chofiadwy.

## CURADUR BYWYD GWERIN SAIN FFAGAN YN YMDDEOL



Brodor o Langwm yn yr hen Sir Ddinbych ydy Dr Robin Gwyndaf, Llandaf a ddechreuodd ar ei waith ym myd Llên Gwerin a hanes llafar yn Sain Ffagan nôl yn 1964. Bu'n casglu a didoli a chofnodi ers y dyddiau hynny gan greu corff archifol sylweddol a phwysig ym myd llên gwerin a fydd yn adnodd hynod o gyfoethog i ymchwilwyr y dyfodol. Yn ystod ei yrfa, mae Dr Gwyndaf wedi cyfweld â thua 3000 o bobl yng Nghymru, gyda thros 450 o'r rheini wedi'u recordio ar dâp. Ceir dros 700 awr o atgofion a hanesion yn yr Archif yn Sain Ffagan, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â straeon gwerin, traddodiadau a chredoau. Mae'n fardd ac awdur toreithiog sydd wedi cyhoeddi dros 300 o erthyglau ar ddiwylliant gwerin Cymru, ac mae'i ddwsin o lyfrau yn cynnwys *Chwedlau Gwerin Cymru* (1989) a *Teulu, Bro a Thelyn* (1997). Ymddeoliad hapus a hir iddo.

Marged Jones o flwyddyn deuddeg oedd arwres Llys Dyfrig wrth iddi gyrraedd brig y gystadleuaeth a chael ei choroni yn Brifardd teilwng iawn ar yr Eisteddfod. Mewn meysydd eraill, llwyddodd Siôn Young i ennill y Fedal Ddrama, Rhian Morgan gipiodd y Tlws Saesneg ac Illtud a lwyddodd i blesio ein beirniad, Branwen Gwyn, a chipio teitl pencampwyr y Côr Llys.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH**



**BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD**



Noddir gan  
Lywodraeth  
Cyrulliad Cymru

**I'R CYHOEDDIAD HWN**  
www.bwrdd-yr-iaith.org

## YSGOL Y BERLLAN DEG

### Ymweliad Mrs Molapo o Lesotho

Ym mis Ionawr cawsom ymwelydd arbennig o Lesotho, Mrs. Memaleloko Molapo, pennaeth ysgol St. Paul's Primary yn Buthe-Buthe ble y bu Miss Grisdale yn ymweld mis hydref diwethaf. Daeth draw i sefydlu'r cysylltiad rhwng ein hysgol ni a'i hysgol hi. Cafodd Mrs. Molapo groeso arbennig gan y disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r staff a dysgodd y disgyblion gymaint amdani hi a'i gwlad fel yr oedd yn brofiad fyth gofiadwy iddynt.

### Eisteddfod

Cawsom gystadlu brwd unwaith eto yn Eisteddfod yr ysgol ar ddydd Gŵyl Dewi, gyda'r enillwyr yn mynd i gynrychioli'r ysgol yn eisteddfod yr Urdd.

### Chwaraeon

O'r diwedd mae ein tîm Pêl-rwyd a Phêl-droed wedi cael eu sefydlu. Mae'r tîm Pêl-rwyd wedi chwarae 3 gem erbyn hyn ac yn mynd o nerth i nerth.

### Diwrnod y Llyfr

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr gyda phenwisgoedd o bob lliw a llun i gynrychioli ein hoff gymeriadau mewn llyfr. Aeth y disgyblion hynaf i lawr at y dosbarthiadau yn y babanod a'r blynyddoedd cynnar i ddarllen llyfrau i'r plant. Daeth Myrddin ap Dafydd i'r ysgol gyda myfyrwyr UWIC. Gan ddefnyddio dychymyg disgyblion blynyddoedd 4,5 a 6 creuwyd dwy gerdd diddorol a digri. Roedd yn ddiwrnod diddorol i bawb.

### Codi arian

Mae Ffrindiau Ysgol y Berllan Deg wedi bod yn brysur iawn yn hel arian ar gyfer yr ysgol. Cynhaliwyd parti Virgin Vie yn yr ysgol ar gyfer y rhieni gyda arbenigwraig yn cynnal y parti. Noson hwyliog iawn oedd y Noson Cwis a Chyri, gyda'r athrawon yn gystadleuol iawn!

### Pob lwc

. . . i'n Dirprwy Bennaeth, Mari Phillips sydd wedi mynd ar antur i'r Ariannin i ddysgu yn yr ysgol Gymraeg yn y Gaiman ym Mhatagonia.

. . . Miss Hopper sydd yn dysgu blwyddyn 2 yn mynd ar ei antur ei hun i Ganada.



## Newyddion

### Cyrraedd y nod i Elis

Mae Elis, mab pedair oed Hefin a Nia Gruffudd, Llandaf yn dioddef o'r clefyd Cerebral Palsy. Yn ystod y misoedd diwethaf bu ymgyrch ar ei ran i godi £18,000 i gael Ystafell Sensori iddo yn ei gartref i'w ddi-ddori a'i ysgogi. Mae tad Elis yn athro yn Ysgol Gyfun Glantaf a'r Hydref diwethaf fe redodd fil o ddisgyblion yn yr ysgol ras nawdd gan godi deng mil o bunnoedd ar gyfer y fenter. Cafwyd £500 trwy law Bryn Terfel gan "Hogiau Chwarae Golf Dydd Mawrth" yng Ngogledd Cymru. Hefyd fe redodd Jonathan Davies a'i wraig Helen ras hanner marathon Caerdydd a rheddodd eraill ym Marathon Eryri ac felly rhwng pawb fe gyrhaeddwyd y nod. Llongyfarchiadau i bawb am eu hamser a'u haelioni.

### Lwc dda i Paul

Yn ddiweddar cyhoeddwyd enwau pedwar o gantorion i gystadlu am yr anrhydedd o gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth y BBC Canwr y Byd a gynhelir yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf. Un o'r cystadleuwyr ydy'r bariton ifanc Paul Carey Jones gynt o Riwbeina. Dymunir yn dda iddo yn ei ymgais i gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth. Cynhelir y prawf terfynol ar 5 Mehefin yn Neuadd Dewi Sant.



**Medal Aur a Medal Efydd  
David Davies**

### Mathew Rhys mewn ffilm ar gyfer y teledu

Mathew Rhys fydd yn portreadu'r bardd Arglwydd Byron mewn ffilm a gynhyrchir ar gyfer y teledu o'r enw "Beau Brummell". Ffilmiwyd nifer o'r golygfeydd yng Nghaerfaddon.

### Ymgynghorydd Creadigol

Llongyfrachiadau i Dylan Griffith a benodwyd yn Ymgynghorydd Creadigol i S4C lle bydd yn adolygu pob agwedd o

## Llwyddiant yn Melbourne

Llongyfarchiadau mawr i'n mabolgampwyr ar eu llwyddiant yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Awstralia. Yn arbennig i...

... David Davies y Barri ar ennill medalau aur ac efydd yn ei rasys nofio  
... David Phelps yr Eglwys Newydd ar ennill medal aur am saethu  
... Geraint Thomas, Llwynbedw ar ennill medal efydd yn y seiclo  
... Griff Morgan Llysfaen a David Phelps yr Eglwys Newydd ar ennill medalau efydd am saethu  
... Johanne Brekke y Rhath ar ennill medal efydd eto am saethu  
Mae'n eithaf clir y bod yna saethwyr da yng Nghaerdydd!

ddelwedd y Sianel cyn cynnig awgrymiadau am newidiadau. Cafodd Dylan ei fagu yng Nghaerdydd ac mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf. Pob llwyddiant yn ei swydd newydd.

### Amgueddfa newydd i Gaerdydd

Mae Cyngor Caerdydd yn trafod bellach y syniad o sefydlu Amgueddfa i olrhain hanes Caerdydd a'i sefydlu yn yr Hen Lyfrgell yn yr Ais. Bydd y gost o gwmpas pedair miliwn o bunnoedd a'r nod yw ei hagor erbyn 2010. Yn wir, mae'n syndod fod dinas mor fawr â Chaerdydd heb Amgueddfa yn barod ac mae llawer o gefnogaeth i'r syniad.

### Arweinydd Newydd i Gôr Meibion Treorci

Un o wyrion y diweddar gerddor a chyfansoddwr Arwel Hughes ydy arweinydd newydd Côr Meibion Treorci sef Meuryn Hughes. Cafodd ei eni a'i fagu yng Nghaerdydd. Eleni bydd y Côr yn dathlu ei ben-blwydd yn drigain oed ac fel rhan o'r dathliadau bwriedir cynnal cyngerdd mawreddog yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Mehefin hefo'r Côr a Max Boyce. Llongyfarchiadau i Meuryn a phob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

### Arglwydd Faer Nesaf Caerdydd

Y Cyngorydd Ceidwadol dros ardal Rhiwbeina sef Gareth Neale fydd Arglwydd Faer nesaf Caerdydd. Cyn ymddeol bu'n bennaeth Coleg Addysg Bellach Glyn Ebwy. Brodor o'r Barri ydy ac yn briod hefo dau o blant.

# Le gallois

Y Cymro

6 - 10 Romilly Crescent,  
Treganna,  
Caerdydd CF11 9NR

**Cinio 1200 – 1430 Llun – Sadwrn**

**Cinio Nos 1830 – 2230 Llun – Sadwrn**

**'Cinio Cynnar' Llun – Iau (archebu 1800 – 1830)**

*Dewch a'r hysbyseb yma efo chi  
pob dydd Llun 12.00 – 14.30  
i fanteisio ar ostyngiad o 20%  
(bwrdd i fyny at 4 person)*

Ffôn 029 20 341264  
Ffacs 029 20 237911

e-bost: [info@legallois-ycymro.com](mailto:info@legallois-ycymro.com)  
<http://www.legallois-ycymro.com>